Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Rebecca Evans AC
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

24 Ionawr 2017

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) drafft – cais am wybodaeth

Annwyl Weinidog,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr yn ymateb i gais y Pwyllgor am eglurhad pellach o'ch penderfyniad i ostwng y cyfyngiad oedran yn y Bil mewn perthynas â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i 16 yn hytrach na 18 oed.

Mae eich llythyr yn nodi bod angen ystyried y materion a godwyd yn ein llythyr yn ofalus a'ch bod yn bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith y byddwch wedi cael y cyfle i archwilio'r holl faterion perthnasol yn fanwl.

O ystyried yr amser a ganiatawyd i'r Pwyllgor graffu ar y Bil, gofynnwyd ichi ymateb erbyn 25 Ionawr. Fodd bynnag, rwy'n deall yn awr na fyddwn, o bosibl, yn cael eich ymateb erbyn y dyddiad hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn 1 Chwefror 2017 fan bellaf, er mwyn inni fedru ystyried eich barn yn ystod ein trafodaethau terfynol ar y dystiolaeth a gyflwynwyd inni a chyn penderfynu ar unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor yn dymuno'u gwneud ynghylch y mater pwysig hwn.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565